

Mae pannas (*Pastinaca sativa*) yn perthyn i deulu'r Apiaceae (y cyfeirir atynt hefyd fel teulu'r moron) ac er y gwyddom iddynt fod yma am filoedd o flynyddoedd, fe ddywedir eu bod wedi cychwyn yn ardal Môr y Canoldir. Mae'r gwreiddyn dwyflynyddol hwn yn perthyn yn agos i bersli a moron ac mae'n boblogaidd iawn ymysg pobl sydd eisiau bwyta'n iach gan ei fod yn cynnwys llawer o ffibr, manganês a Fitamin C a B, ond yn isel mewn braster dirlawn, cholesterol a sodiwm.

## SAFLE

I dyfu pannas mae angen pridd dwfn gyda draeniad da. Dylai fod yn rhydd a thywodlyd ei ansawdd heb gerrig er mwyn i'r gwreiddyn dyfu'n syth a chryf. O'u cymharu â moron, mae pannas yn fwy sensitif i briddoedd asidaidd ac, yn ddelfrydol, mae arnynt angen pH rhwng 6.0 a 6.8. Nid oes raid tyfu pannas yn llygad yr haul a gellir eu tyfu mewn lleiniau sy'n cael peth cysgod. Dylid cofio bod gan bannas dymor tyfu hir a gallant fod yn y ddaear am bron flwyddyn.

## MATHAU

Ceir amryw o wahanol fathau sy'n gwahaniaethu o ran maint, ansawdd eu crwyn a'u gallu i wrthsefyll cancr. Un math sy'n rhoi llawer o gynnyrch yw "White Gem" ac mae mathau cyffredin eraill yn cynnwys "Gladiator" a "Tender and True".

## PLANNU

Tyfir pannas o hadau. Gellir eu hau rhwng Chwefror a Mai, ond mae hadau a heuir yn gynnar yn cymryd amser i egino fel rheol. Ceir egino mwy gwastad trwy eu hau ar ôl y perygl olaf o gael rhew. Heuir pannas mewn rhesi tua 40 cm oddi wrth ei gilydd. Bob tua 15 -30 cm heuir 3 hedyn gyda'i gilydd i ddyfnder o 0.6 cm i 1.2 cm. Mae hadau mewn pelennau ar gael ar gyfer dulliau hau mecanyddol. Mae'r lle a roddir rhwng y pannas yn dibynnu ar y math a ddefnyddir - po leiaf y math, agosa'n byd y dylent fod at ei gilydd. Mae datblygiad y gwreiddiau hefyd yn dibynnu ar faint o le sydd rhwng y planhigion. Dylid penderfynu ar y lle rhwng y planhigion yn ôl y math a heuir a pha mor fawr yr hoffech gael y pannas pan fyddant yn barod. Dim ond hadau ffres ddylid eu defnyddio gan bod eu hansawdd yn dirywio'n gyflym.

## MAETH

Peidiwch â phlannu pannas ar dir sydd newydd gael ei deilo. Y peth gorau yw eu hau ar ôl cnwd a gafodd ei deilo'n dda. Mae pannas angen cryn dipyn o Botash ond, heblaw am hynny, nid ydynt yn gnwd sydd angen llawer o faetholion. Dangosir y gofynion gwrtaith arferol yn Nhabl 1. Un broblem gyffredin mewn pannas yw diffyg magnesiwm, a ddaw i'r amlwg trwy ddail melyn.

**Tabl 1 – Argymhellion gwrtaith ar gyfer pannas o RB209**

	SNS, P, K or Mg Index						
	0	1	2	3	4	5	6
				kg/ha			
Nitrogen	150	100	50	0	0	0	0
Ffosffad (P <sub>2</sub> O <sub>5</sub> )	200	150	100	50M	0	0	0
Potash (K <sub>2</sub> O)	300	250	200(2-)-150(2+)	60	0	0	0
Magnesiwm (MgO)	150	100	0	0	0	0	0

Ffynhonnell: Defra – Fertiliser recommendations for agricultural and horticultural crops (RB209)

## RHEOLAETH

Er bod pannas yn gwreiddio'n ddwfn, mae angen eu dyfrhau yn arbennig mewn cyfnodau sych i gadw ansawdd y croen. Mae angen rheoli chwyn hefyd. Gellir ystyried defnyddio chwynladdwyr megis linuron neu pentanochlor cyn i'r chwyn ymddangos. Mae rheolau ar ddefnyddio plaladdwyr yn newid yn aml, felly dylid ceisio'r cyngor diweddaraf bob amser cyn defnyddio unrhyw gemegau.

## PLÂU AC AFIECHYDON

**Hoelion daear (wire worms)** - gall y rhain ddiwydd mewn pannas. Mae'r larfâu brown a sgleiniog, sydd tua 2.5 cm o faint, yn bwyta'r gwreiddiau, ac maent i'w cael yn arbennig ar gaeau a fu'n laswellt neu ar gaeau sydd mewn cyflwr gwael. Y symptomau yw tyllau rheolaidd yn y gwreiddiau a dod ar draws y larfâu eu hunain.

**Pryfed moron (*Psila rosae*)** – nid yw'r rhain mor gyffredin mewn pannas ag mewn moron ond gallant achosi difrod economaidd. Yr arogl sy'n eu denu, felly wrth gynhyrchu ar raddfa fechan gall fod yn fuddiol plannu garleg neu nionod yn agos at y pannas. Gyda chynhyrchu organig, gellir defnyddio mesh mân neu rywbeth tebyg i warchod y planhigion.

Mae amryw o blaladdwyr ar gael ond bydd trefn dda o gylchdroi cnydau hefyd o gymorth i leihau plâu ac afiechydon yn y pridd. Dylid bod yn ofalus wrth gynllunio'r drefn cylchdroi cnydau gan bod rhai plâu sy'n ymosod ar sawl rhywogaeth o'r teulu Apiaceae. Ni ddylai'r cnydau hyn ddilyn ei gilydd o fewn y cylchdro cnydau.

**Cancr** - achosir hwn gan haint ffwngaidd (e.e. *Itersonilia pastinacae*) a bydd yn effeithio ar y cnwd, yn arbennig mewn blynyddoedd gwlyb neu ar briddoedd gwlyb. Yn aml mae'n dod o ganlyniad i ddifrod i'r gwreiddiau eu hunain gyda'r sborau'n medru treiddio drwy'r meinwe a ddifrodwyd. Ceir gwahanol ffurfiau, ond cancr du yw'r mwyaf cyffredin. Mae symptomau'n cynnwys clytiau duon ar y gwraidd a sbotiau gwyrdd golau ar y dail.

## CYNAEAFU

Yn draddodiadol, roedd cynaeafu'n dechrau ar ôl y rhew cyntaf (tua chanol Hydref) ac yn parhau tan Ebrill (yn dibynnu ar y galw). Erbyn hyn mae cynaeafu'n dechrau mor fuan â Mehefin. Mae maint y cnydau'n amrywio, yn dibynnu ar y math a ddefnyddiwyd a pha mor agos yr heuwyd yr hadau, a gall amrywio rhwng 15 i 30 tunnell yr hectar neu hyd yn oed fwy. Gellir defnyddio peiriannau arbennig i gynaeafu pannas ond gellir defnyddio peiriannau cynaeafu tatws neu foron wedi eu haddasu hefyd. Os codir y pannas â llaw fe'ch cynghorir i ddefnyddio menig gan y gall y dail achosi llid difrifol ar y croen.

## STORIO

Yn draddodiadol roedd pannas yn cael eu cadw yn y pridd gan eu bod yn tueddu i grebachu a cholli pwysau'n bur rhywydd. Mantais arall o'u cadw yn y pridd dros y gaeaf yw bod eu blas yn gwella wrth ddod i gysylltiad â rhew wrth iddo droi'r starts yn siwgr. Gellir cadw pannas a gaiff eu cynaeafu cyn y rhew cyntaf am o leiaf 2 wythnos mewn lle oer (0°C) i gael y blas melys. Os ydynt yn cael eu storio i mewn, dylid torri'r dail i ffwrdd a gofalu eu bod yn cael eu cadw heb fod yn cyffwrdd ei gilydd mewn tywod a hynny mewn lle tywyll ac oer. Ar dymheredd o 0°C a lleithder o 90% gellir eu cadw am hyd at 6 mis.

### Ffigurau posibl ar gyfer un hectar o gynhyrchu pannas

	Eitem	Swm	£/Uned	£ Cyfanswm
<b>Allbynnau</b>				
Gwerthu cnydau	tunnell	20	340	6,800
			<b>Cyfanswm Allbynnau</b>	
<b>Costau</b>				
Llafur Ysbeidiol	Graddoli/plannu	120	6.00	720
	Cynaeafu/pacio	60	6.00	360
Costau Gwrtaith	Gwrtaith	1		120
Costau Eraill	Pecynnu/Cludiant/...	1		1,500
Costau Had	Hadau (sachau o 25,000)	10	22	220
Costau Chwistrellu	Chwyn/Plaladdwyr	1		60
			<b>Cyfanswm Costau</b>	<b>2980</b>
			<b>Maint Elw Gros</b>	<b>£3820</b>

Ffynhonnell: Amrywiol



Whilst every effort is made to ensure the information provided in this leaflet is correct, CALU cannot be held responsible for the consequences of any actions taken on the basis of its content.

CALU is the Development Centre for horticulture, biomass, novel crops, farm woodlands and novel livestock in Wales.

CALU is funded by the Welsh Assembly Government as part of Farming Connect

[www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk)

CALU – Supporting Sustainable Land Use